



Ein cyf/Our ref: WQ96990

Adam Price AS
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Adam.Price@senedd.cymru

6 Awst 2025

Annwyl Adam,

Mae'r ddarpariaeth a chyfeiriad y cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol yn faterion sy'n cael eu neilltuo i Lywodraeth y DU, sydd hefyd yn cadw cyfrifoldeb dros y materion hyn ar draws Cymru. Felly, nid oes gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod uniongyrchol i ailgyflwyno neu wella cynlluniau cymorth cyfreithiol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn codi pryderon yn gyson ynghylch digonolrwydd y ddarpariaeth cymorth cyfreithiol ledled Cymru gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, ac mae hyn hefyd yn destun trafod rheolaidd yng nghyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori mewn meysydd o flaenoriaeth megis mewnfudo, tai, a lles cymdeithasol. Er bod y mesurau hyn yn darparu cymorth hanfodol, nid ydynt yn cymryd lle system cymorth cyfreithiol sydd â'r adnoddau llawn.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.